

Cwestiwn 1

Yn ychwanegol at y pwerau sydd gan Gyngor Caerffili eisoes, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylai neb gyflawni'r gwaith uchod heb gymeradwyaeth y Cyngor?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Osgoi gwaith anawdurdodedig sy'n arwain yn y pen draw at lifogydd.	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Rwy'n cytuno'n llwyr y dylai fod gan y Cyngor y pwerau i ystyried pa waith a gaiff ac na chaiff ei gyflawni ar gyrsiau dŵr. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i reoli perygl llifogydd yn ei ardal ac, fel yr awgrymir, i greu cysondeb ledled Cymru	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Mae angen rhywfaint o reolaeth ac mae angen i'r cyngor fod yn ymwybodol o unrhyw waith er mwyn sicrhau ei fod o'r safon briodol ac yn bodloni gofynion diogelwch.	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Lle mae'r gwaith yn gyson â hwsmonaeth tir dda gellid ystyried cymeradwyaeth ymlaen llaw o'r fath yn ymyrraeth â gweithgareddau'r trefeddiannwr. A lle byddai oedi cyn cyflawni gwaith oherwydd aros am gymeradwyaeth yn gallu arwain at fwy o ddifrod, dylai'r gwaith a gyflawnir gyda chaniatâd gael ei gymeradwyo'n ôl-weithredol.	Anghytuno - Mae is-ddeddfau'n ymdrin â gweithgareddau y bernir bod iddynt effaith o ran perygl llifogydd ac mae angen eu rheoli at ddibenion perygl llifogydd / amgylcheddol. Ymdrinnir â gweithgarwch sydd ag effeithiau cyfyngedig neu ddim o gwbl o ran perygl llifogydd / yr amgylchedd o dan gyfrifoldebau glannau. Ni ellir ystyried caniatadau'r Ddeddf Draenio Tir yn ôl-weithredol, a byddai cymeradwyaeth yn dilyn amserlen safonol a nodir yn y ddeddfwriaeth / polisi perthnasol.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylai neb allu ymyrryd â strwythur rheoli llif heb gymeradwyaeth y Cyngor?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Mae strwythurau o'r fath yn darparu ac yn cyflawni swyddogaeth allweddol o ran amddiffyn rhag llifogydd. O'r herwydd ni ddylai neb ymyrryd â hwy heb y gymeradwyaeth berthnasol. Bydd hyn yn helpu Cyngorau i reoli perygl llifogydd yn eu hardaloedd.	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Gallai unrhyw ymyrryd â chyrsiau dŵr neu ddraeniau achosi problemau mewn mannau eraill	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Gallai unrhyw strwythur sydd wedi'i fwriadu i effeithio ar y llif dŵr, yn ddamcaniaethol, fod yn niweidiol yn ystod tywydd drwg pe nai chât ei weithredu neu ei osod yn gywir.	Cytuno - Nid oes angen ymateb

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sawl sy'n berchen ar strwythur rheoli llif neu sy'n ei reoli fod yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr priodol?

Sylwadau	Ymateb CBSC
32 - Cytuno	Nid oes angen sylw
1 - Anghytuno	Nid oes angen sylw

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyfyngu ar adeiladu strwythurau dros gwrs dŵr / cwlfer neu'n agos ato?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Cytuno, er mwyn lleihau perygl llifogydd	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Dylai'r perchennog tir / glannau fod yn gyfrifol am unrhyw strwythur ar ei dir, a hefyd yn atebol am unrhyw ddifrod sy'n deillio o fethiant i gynnal a chadw ased o'r fath.	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Rwy'n cytuno â chyfyngu ar adeiladu strwythurau dros gyrsiau dŵr	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Dylai'r dyfeisiau hyn hefyd ddod o dan drefn arolygu reolaidd gan yr awdurdod lleol, er mwyn canfod a ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw i lefel dderbyniol.	Nodwyd - Cyflawnir arolygiadau rheolaidd ar asedau CBSC, ond cyfrifoldeb perchnogion glannau yw'r asedau preifat.
Cytuno	Nid oes angen sylw
Cytuno	Nid oes angen sylw
Os yw'n eiddo iddo fel mater o ddewis / elw personol, dylai fod yn gwbl gyfrifol. Os yw'n eiddo iddo o ganlyniad i orfodi, wedi'i etifeddu neu er amddiffyniad cymunol neu gymunedol, dylai'r cyfrifoldeb gael ei rannu mewn modd cymesur.	Anghytuno - Byddai caniatáu adeiladu dros gwlfert / cwrs dŵr yn creu problemau o ran mynediad / cynnal a chadw yn y dyfodol gan berchennog glannau a gallai gynyddu perygl llifogydd i lawr y llif dŵr.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cyfyngu ar rai gweithgareddau penodol a all achosi llifogydd?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Yn cytuno'n llwyr. Sut all Cyngor reoli llifogydd yn ei ardal heb y pwerau angenrheidiol? Nid yw gweithgareddau o'r fath yn cael eu rheoleiddio a gallant achosi perygl sylweddol llifogydd. Mae potensial i blannu coed o fewn y pellter yn yr Is-ddeddf	Cytuno - Nid oes angen ymateb

wella'r sefyllfa o ran perygl llifogydd a'r amgylchedd yn sylweddol. O'r herwydd byddai'r gweithgarwch hwn yn cael ei gefnogi'n llawn. Efallai y gallai'r Cyngor ystyried rhaglen plannu coed ar hyd cyrsiau dŵr?	
Gallai storio deunyddiau'n ddidrefn arwain at rwystro neu halogi cyrsiau dŵr.	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Bydd yr is-ddeddfau hyn yn rheoli pob cwrs dŵr, ac rwy'n tybio mai 8 metr fydd y pellter o dan yr is-ddeddf at ddibenion y rheolaeth hon. Bydd gan lawer o'r cyrsiau dŵr llai llystyfiant, gan gynnwys coed, yn agos iawn atynt, os nad ar y lan ac ynddi, a fydd o bwysigrwydd gweledol ac ecolegol. Ni ddylai arfer yr is-ddeddfau atal plannu newydd yn y mannau hyn lle mae'n gwella gwerth amwynderol ac ecolegol y cwrs dŵr. Efallai y byddwch eisiau ymgynghori ag ecolegwyr ynghylch yr is-ddeddfau.	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Lle mae llifogydd yn debygol ar dir, ni ddylid draenio'r tir i ffos a chyfeirio'r dŵr i'r prif ddraeniau. Wedyn mae'r draeniau'n gorlifo.	Nodwyd
Yr unig amheuaeth yw bod rhai gweithgareddau'n iawn ar rai adegau tymhorol ac nid eraill	Nodwyd
Yn anffodus mae tuedd gan y Cyngor o hyd i ganiatáu i adeiladau gael eu codi ar orlifdiroedd. Enghraifft arall o incwm tymor byr ac wfft i'r canlyniadau.	Anghytuno - Mae codi adeiladau ar orlifdiroedd prif afonydd yn cael ei ystyried o dan Bolisi Cynllunio Llywodraeth Cymru (Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Llifogydd).
Mae angen aralleirio'r is-ddeddf er mwyn osgoi ei defnyddio mewn ffordd sy'n rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa, ganfyddedig neu wirioneddol, o ymyrryd â hwsmonaeth tir y tîrfeddiannwr gan gynnwys y cwrs dŵr sy'n eiddo i'r tîrfeddiannwr.	Anghytuno - Mae is-ddeddfau'n ymdrin â gweithgareddau y bernir bod iddynt effaith o ran perygl llifogydd ac mae angen eu rheoli at ddibenion perygl llifogydd / amgylcheddol. Ymdrinnir â gweithgarwch sydd ag effeithiau cyfyngedig neu ddim o gwbl o ran perygl llifogydd / yr amgylchedd o dan gyfrifoldebau perchnogion glannau.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyfyngu ar adeiladu strwythurau dros gwrs dŵr / cwlfer neu'n agos ato?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Mae'r cyfyngiad hwn ar Brif Afonydd er mwyn rheoli perygl llifogydd ohonynt. Nid yw cwrs dŵr cyffredin yn wahanol, felly dylai'r cyfyngiad hwn fod yn berthnasol. Yn aml nid yw pobl yn ymwybodol eu bod yn	Cytuno - Nid oes angen ymateb

berchnogion glannau cwlfertau a gall adeiladu dros gwlfert neu'r tebyg beri risg sylweddol yn y dyfodol. Pe bai cwlfer yn methu, sut all perchennog y glannau ei adfer? Bydd cyfyngiad ar adeiladu o fewn y pellter yn cael ei ystyried yn anodd, ond dim ond budd hirdymor fydd yn deillio ohono.	
Dylid mabwysiadu ymagwedd hyblyg at osod y cyfyngiad 8 metr gan ddibynnu ar natur y datblygiad, maint y cwrs dŵr a'r anghenion o ran cynnal a chadw.	Anghytuno - Bydd ymagwedd safonol at weithredu'r pellter yn yr is-ddeddf yn darparu cysondeb wrth wneud penderfyniadau. Gydag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd mae cynnydd yn y llifoedd mewn cyrsiau dŵr yn debygol, felly bydd sicrhau digon o le yn ymyl y cwrs dŵr yn rheoli perygl llifogydd.
Gan ddibynnu ar y datblygiad, a'r buddion posibl a gynigir, efallai y bydd angen o dro i dro 'ailgyfeirio' y cwrs dŵr am resymau cynaliadwyedd tymor hirach. Weithiau, efallai nad y datblygiadau a gwaith sefydlu cyrsiau dŵr a gafwyd yn y gorffennol oedd yr atebion peiranyddol gorau yn y lle cyntaf ac felly efallai y bydd angen gwaith newid cwrs a allai gynnig atebion gwell. Dylai'r rheolaeth hon fod yn hyblyg (fesul achos) ac nid yn gaeth. Yn arbennig mewn ardaloedd sydd eisoes wedi'u gorddatblygu neu wedi'u trefoli.	Nodwyd - Byddai cynigion i newid cwrs dŵr sy'n bodoli eisoes yn cael eu hystyried o dan y Ddeddf Draenio Tir.
Unwaith eto mae angen i'r Cyngor edrych ar ei Brosiect Datblygiadau Tai ac edrych ar ble maent yn cael eu hadeiladu. Pwy sy'n cadw llygad ar benderfyniadau'r Cyngor?	Cytuno - Mae materion sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol sy'n adrodd i Lywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru.
Mae angen aralleirio'r is-ddeddf er mwyn osgoi ei defnyddio mewn ffordd sy'n rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa, ganfyddedig neu wirioneddol, o ymyrryd â hwsmonaeth tir y tîrfeddiannwr gan gynnwys y cwrs dŵr sy'n eiddo i'r tîrfeddiannwr.	Anghytuno - Byddai caniatáu cynigion i adeiladu dros gwlfert / cwrs dŵr yn creu problemau o ran mynediad / cynnal a chadw gan berchennog glannau yn y dyfodol a gallai gynyddu perygl llifogydd i lawr y llif dŵr.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â pherchnogaeth neu reolaeth dros adeilad, ffens neu strwythur ar, dan neu dros gwrs dŵr / cwlfer ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr priodol at ddibenion atal llifogydd a rheoli'r rhwydwaith draenio?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Dylai fod rhwymedigaeth ar berchnogion i gynnal a chadw unrhyw strwythurau ar eu tir, yn enwedig rhai a allai effaithio ar bobl eraill.	Cytuno - Mae'r Ddeddf Draenio Tir yn gosod dyletswyddau perchnogion glannau ar dirfeddiannwyr i gynnal llif dilyffethair dŵr lle mae'n croesi eu tir. Mae pob tîrfeddiannwr yn

	gyfrifol am y rhan o'r cwlfer / cwrs dŵr sy'n llifo dan neu drwy ei dir. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys cynnal a chadw cwlfertau mewn cyflwr rhesymol.
Mae gwaith cynnal a chadw'n allweddol i nodweddion amddiffyn.	Cytuno - Mae'r Ddeddf Draenio Tir yn gosod dyletswyddau perchnogion glannau ar dirfeddianwyr i gynnal llif dilyffethair dŵr lle mae'n croesi eu tir. Mae pob tîrfeddiannwr yn gyfrifol am y rhan o'r cwlfer / cwrs dŵr sy'n llifo dan neu drwy ei dir. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys cynnal a chadw cwlfertau mewn cyflwr rhesymol.
Dylai fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y perchnogion i gynnal a chadw strwythur o unrhyw fath	Cytuno - Mae'r Ddeddf Draenio Tir yn gosod dyletswyddau perchnogion glannau ar dirfeddianwyr i gynnal llif dilyffethair dŵr lle mae'n croesi eu tir. Mae pob tîrfeddiannwr yn gyfrifol am y rhan o'r cwlfer / cwrs dŵr sy'n llifo dan neu drwy ei dir. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys cynnal a chadw cwlfertau mewn cyflwr rhesymol.
Mae angen aralleirio'r is-ddeddf er mwyn osgoi ei defnyddio mewn ffordd sy'n rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa, ganfyddedig neu wirioneddol, o ymyrryd â hwsmonaeth tir y tîrfeddiannwr gan gynnwys y cwrs dŵr sy'n eiddo i'r tîrfeddiannwr. Yn enwedig wrth gynnal a chadw a nodi ffiniau.	Anghytuno - Mae is-ddeddfau'n ymdrin â gweithgareddau y bernir bod iddynt effaith o ran perygl llifogydd ac mae angen eu rheoli at ddibenion perygl llifogydd / amgylcheddol. Ymdrinnir â gweithgarwch sydd ag effeithiau cyfyngedig neu ddim o gwbl o ran perygl llifogydd / yr amgylchedd o dan gyfrifoldebau perchnogion glannau.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai person sy'n berchen ar dir neu'n meddiannu tir lle mae cwrs dŵr fod yn gyfrifol am gynnal a chadw a gwaredu llystyfiant sy'n achosi rhwystrau i'r llif?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Dylai gynnal llif dilyffethair y dŵr yn y cwrs dŵr mae'n berchennog arno.	Cytuno - Mae'r Ddeddf Draenio Tir yn gosod dyletswyddau perchnogion glannau ar dirfeddianwyr i gynnal llif dilyffethair dŵr lle mae'n croesi eu tir. Mae pob tîrfeddiannwr yn gyfrifol am y rhan o'r cwlfer / cwrs dŵr sy'n llifo dan neu drwy ei dir. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys cynnal a chadw cwlfertau mewn cyflwr rhesymol.
Cytuno'n llwyr, mae ar y Cyngor angen y pwerau i reoli perygl llifogydd.	Cytuno - Mae'r Ddeddf Draenio Tir yn gosod dyletswyddau perchnogion glannau ar dirfeddianwyr i gynnal llif dilyffethair dŵr lle mae'n croesi eu tir. Mae pob tîrfeddiannwr yn gyfrifol am y rhan o'r cwlfer / cwrs dŵr sy'n llifo dan neu drwy ei dir. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys cynnal a chadw cwlfertau

	mewn cyflwr rhesymol..
Dylai fod arno rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal a chadw unrhyw gwrs dŵr ar ei eiddo	Cytuno - Mae Deddf Draenio Tir 1991 yn gosod dyletswyddau perchnogion glannau ar dirfeddianwyr i gynnal llif dilyffethair dŵr lle mae'n croesi eu tir. Mae pob tirfeddiannwr yn gyfrifol am y rhan o'r cwlfer / cwrs dŵr sy'n llifo dan neu drwy ei dir. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys cynnal a chadw cwlfertau mewn cyflwr rhesymol.
Anodd gorfodi gwaith torri llystyfiant naturiol, onid rhan o broses naturiol siltio yw hynny? Pwy fyddai'n gwirio a monitro?	Cytuno - Gweithredir dull seiliedig ar risg mewn materion yn ymwneud â draenio tir, byddai gwaith yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.
Siawns na allai hon fod yn sefyllfa arall lle nad oes cyfrifoldeb, neu na ddylai fod cyfrifoldeb, ar y tirfeddiannwr yn unig, a dylid ystyried ystyriaeth hanesyddol gan ddibynnu sut y daeth y cwrs dŵr i fod yn y lle cyntaf.	Anghytuno - Mae Deddf Draenio Tir 1991 yn gosod dyletswyddau perchnogion glannau ar dirfeddianwyr i gynnal llif dilyffethair dŵr lle mae'n croesi eu tir. Mae pob tirfeddiannwr yn gyfrifol am y rhan o'r cwlfer / cwrs dŵr sy'n llifo dan neu drwy ei dir. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys cynnal a chadw cwlfertau mewn cyflwr rhesymol.
Mae angen rhagnodi'r pellter	Cytuno - Mae'r pellter yn yr is-ddeddf wedi'i rhagnodi yn yr adran diffiniad a dehongli o'r Is-ddeddfau
Dylid bod yn ofalus yma i beidio â chaniatau i is-ddeddf o'r fath ymyrryd â'r ecoleg naturiol yn y cwrs dŵr o dan berchnogaeth y tirfeddiannwr.	Cytuno - Mae'r Ddeddf Draenio Tir yn ei gwneud yn ofynnol ystyried ffactorau ecolegol / amgylcheddol.

Cwestiwn 9

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai anifeiliaid gael eu rhwystro rhag difrodi gwely a glannau cwrs dŵr, o dan rai amgylchiadau penodol?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Gall anifeiliaid achosi llawer o ddifrod i lannau cyrsiau dŵr.	Cytuno.
Ar yr amod bod gan unrhyw anifail fynediad digonol at ddŵr	Anghytuno - Mae'r Is-ddeddf wedi cael ei geirio i ganiatáu mynediad gan anifeiliaid i gael dŵr gan gymryd yr holl gamau angenrheidiol i atal difrod gan ddefnydd o'r fath.
Mae'n bosibl mai hon yw unig ffynhonnell dŵr i'r anifeiliaid. Mae'r is-ddeddf yn dal i fod yn annigonol oherwydd nad yw'r Cyngor yn mynd â digon o droseddwyd i'r llys oherwydd "mae'n costio gormod" er bod ganddo ei Adran Gyfreithiol ei hun.	Nodwyd
Gyda chafeat defnydd difrifol. Fodd bynnag, gellir barnu bod angen aralleirio'r is-ddeddf er mwyn osgoi ei defnyddio mewn ffordd sy'n	Anghytuno - Mae is-ddeddfau'n ymdrin â gweithgareddau y bernir bod iddynt effaith o ran perygl llifogydd ac mae angen eu rheoli

rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa, ganfyddedig neu wirioneddol, o ymyrryd â hwsmonaeth tir y tîrfeddiannwr gan gynnwys y cwrs dŵr sy'n eiddo i'r tîrfeddiannwr.	at ddibenion perygl llifogydd / amgylcheddol. Ymdrinnir â gweithgarwch sydd ag effeithiau cyfyngedig neu ddim o gwbl o ran perygl llifogydd / yr amgylchedd o dan gyfrifoldebau perchnogion glannau. Mae'r Is-ddeddf wedi cael ei geirio i ganiatáu mynediad gan anifeiliaid i gael dŵr gan gymryd yr holl gamau angenrheidiol i atal difrod gan ddefnydd o'r fath.
---	---

Cwestiwn 10

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai anifeiliaid a cherbydau gael eu hatal, o dan rai amgylchiadau penodol, rhag tramwyo trwy gwrs dŵr, at ddibenion atal difrod?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Gall anifeiliaid achosi llawer o ddifrod i lannau cyrsiau dŵr.	Cytuno - Nid oes angen ymateb
DYLAI CROESFANNAU DILYS I ANIFEILIAID AC I GERBYDAU GAEL EU CANIATÁU O HYD A DYLAI'R MANNAU HYN GAEL EU CYNNAL A'U CADW GAN Y PERCHENNOG PRIODOL.	Nodwyd - Efallai y caiff creu cwlferat at ddibenion mynediad ei ystyried os cyflwynir cais am Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin.
Cytuno'n llwyr, gall silt gael ei gorddi a'i symud, gan achosi problemau o ran llygredd. Gall hyn wella'r sefyllfa o ran llygredd.	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Lle nad oes dewis arall dylid rhedeg y cwrs dŵr trwy beipen ddigonol neu dylid ei groesi ar ryw fath o bont	Nodwyd - I gael newid cwrs dŵr dros dro byddai'n ofynnol cyflwyno cais am Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin i gael ei gymeradwyo.
Os oes dŵr yn llifo trwy'r tir mae'n anodd atal anifeiliaid rhag ei groesi neu gymryd dŵr o'r cwrs dŵr	Nodwyd - Fodd bynnag, mae amddiffyn yn hollbwysig er mwyn atal perygl llifogydd i lawr y llif dŵr.
Dylai fod fesul achos unigol	Anghytuno - mae amddiffyn yn hollbwysig er mwyn atal perygl llifogydd i lawr y llif dŵr. I gael newid cwrs dŵr dros dro byddai'n ofynnol cyflwyno cais am Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin i gael ei gymeradwyo.
Mae angen aralleirio'r is-ddeddf er mwyn osgoi ei defnyddio mewn ffordd sy'n rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa, ganfyddedig neu wirioneddol, o ymyrryd â hwsmonaeth tir y tîrfeddiannwr gan gynnwys y cwrs dŵr sy'n eiddo i'r tîrfeddiannwr.	Anghytuno - Mae is-ddeddfau'n ymdrin â gweithgareddau y bernir bod iddynt effaith o ran perygl llifogydd ac mae angen eu rheoli at ddibenion perygl llifogydd / amgylcheddol. Ymdrinnir â gweithgarwch sydd ag effeithiau cyfyngedig neu ddim o gwbl o ran perygl llifogydd / yr amgylchedd o dan gyfrifoldebau perchnogion glannau.

Cwestiwn 11

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, pan fo'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau ar dir, y dylid rheoli/goruchwyllo anifeiliaid ac na ddylid ymyrryd â'n mynediad?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Dylid sicrhau mynediad priodol er mwyn caniatáu i'r gwaith cynnal a chadw angenrheidiol gael ei gyflawni	Cytuno - Nid oes angen ymateb
GYDA CHYTUNDEB Y TIRFEDDIANNWR LLEOL	Cytuno - Nid oes angen ymateb
Rwy'n anghytuno â hyn ar yr egwyddor pwy fyddai'n cael ei ddal yn gyfrifol am reoli anifeiliaid y caniateir iddyn nhw grwydro heb ymyrraeth, er enghraifft y ceffylau gwyllt ar gomin Manmoel?	Cytuno - Tir cominwyr yw hwn a byddai'n dod o dan y Swyddog Tresmasu Anifeiliaid.
Ar yr amod y rhoddir rhybudd rhesymol o weithgareddau o'r fath lle bo modd	Nodwyd - Nid oes angen sylw
Os caiff yr is-ddeddf ei chymeradwyo mae angen i'r Awdurdod barchu tirfeddianwyr a rhoi rhybudd o'r bwriad i arolygu a threfnu amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr i gyflawni'r arolygiad hwnnw.	Cytuno - Fodd bynnag weithiau mewn argyfwng nid yw hyn yn bosibl.

Cwestiwn 12

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y Cyngor yn gwneud popeth a all i reoli llifogydd yn yr ardal?

Sylwadau	Ymateb CBSC
Dylid gwneud mwy i addysgu'r cyhoedd ynghylch eu dyletswydd i amddiffyn eu heiddo eu hunain.	Nodwyd - Ar hyn o bryd mae CBSC yn codi ymwybyddiaeth ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Yn ddiweddar rydym wedi ymweld ag ardaloedd Machen, Rhisga, Ynysddu ac Ystrad Mynach gan roi gwybod iddynt am y perygl llifogydd yn eu hardal a chan greu dealltwriaeth o'r peryglon a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd yn ystod achos o lifogydd. Mae'r cyhoedd wedi cael eu hannog i sefydlu grwpiau cymunedol lleol sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd. Gofynnwyd i unigolion lunio eu cynlluniau llifogydd personol eu hunain, yn ogystal â chysylltu ag aelodau eraill o'r gymuned i ddatblygu Cynlluniau Llifogydd Cymunedol. Trwy'r broses cydadolygu ac yn unol â'r amcanion a mesurau a nodir yn y Cynllun, ar hyn o bryd mae CBSC yn cyflawni menter ar y cyd â CNC i godi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd yn ardal Llanbradach.

	Cafodd llythyrau ar y cyd (gyda bathodynnau'r ddau gorff) eu hanfon ym mis Gorffennaf gyda holiadur i breswylwyr y gallai llifogydd o brif afon neu ddŵr wyneb effeithio ar eu heiddo. Cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd ym mis Awst a mis Medi 2017. Trwy gydweithio gyda CNC i gyflawni gwaith ymwybyddiaeth o berygl llifogydd mewn cymunedau sydd mewn perygl: • Rydym wedi sicrhau y darperir ymwybyddiaeth o lifogydd o bob ffynhonnell. • Wedi nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad • Wedi rhannu costau ac amser swyddogion wrth hwyluso'r ymgyrch ymwybyddiaeth. • Wedi rhannu profiadau a gwybodaeth. Hefyd trwy ddarparu ymagwedd ar y cyd, mae'n hybu ymdeimlad o ymddiriedaeth a chyfranogiad yn y cymunedau a dargedir.
Oherwydd toriadau, mae gwaith cynnal a chadw gylïau a chwlfertau wedi cael ei gwtogi ac mae'n achosi problemau. Hefyd, mae defnyddio contractwyr a cholli gweithlu lleol gyda gwybodaeth leol yn achosi lleihad yn y gwaith o reoli ansawdd ein systemau a'n gallu i ymateb yn effeithiol i broblemau lleol a'u lleddfu. Hefyd, mae diffyg buddsoddiadau neu waith cynnal a chadw cylchol cynlluniedig ym maes SDCau ac ati wedi lleihau effeithiolrwydd dŵr ffo ardaloedd adeiledig ac ati.	Anghytuno - Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i rhannu'n dair ardal, ac mae peiriant gwagio gylïau a dau aelod o griw yn gweithio ym mhob ardal. Rhoddir amserlen i'r criwiau i sicrhau y caiff pob gwli ei lanhau unwaith y flwyddyn, er mewn mannau lle mae llifogydd neu falurion yn fwy cyffredin, maent yn cael eu glanhau dwywaith y flwyddyn. Ar dywydd gwael gellir hepgor gwaith glanhau arferol gan y rhoddir blaenoriaeth i achosion o lifogydd neu dasgau brys eraill (fel graeanu yn y gaeaf) er mwyn lleihau anghyfleustra i ddefnyddwyr ffyrdd gymaint ag sy'n bosibl.
Dylai fod amserlen i glirio gylïau'n rheolaidd ac nid ar sail "os yw wedi'i rwystro fe wnawn ni ei glirio"	Anghytuno - Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i rhannu'n dair ardal, ac mae peiriant gwagio gylïau a dau aelod o griw yn gweithio ym mhob ardal. Rhoddir amserlen i'r criwiau i sicrhau y caiff pob gwli ei lanhau unwaith y flwyddyn, er mewn mannau lle mae llifogydd neu falurion yn fwy cyffredin, maent yn cael eu glanhau dwywaith y flwyddyn. Ar dywydd gwael gellir hepgor gwaith glanhau arferol gan y rhoddir blaenoriaeth i achosion o lifogydd neu dasgau brys eraill (fel graeanu yn y gaeaf) er mwyn lleihau anghyfleustra i ddefnyddwyr ffyrdd gymaint ag sy'n bosibl.
Gwaith cynnal a chadw ffyrdd a chyfuchlinau i ddraeniau ffyrdd yn annigonol	Anghytuno - Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i rhannu'n dair ardal, ac mae peiriant gwagio gylïau a dau aelod o griw yn gweithio

	ym mhob ardal. Rhoddir amserlen i'r criwiau i sicrhau y caiff pob gwli ei lanhau unwaith y flwyddyn, er mewn mannau lle mae llifogydd neu falurion yn fwy cyffredin, maent yn cael eu glanhau dwywaith y flwyddyn. Ar dywydd gwael gellir hepgor gwaith glanhau arferol gan y rhoddir blaenoriaeth i achosion o lifogydd neu dasgau brys eraill (fel graeanu yn y gaeaf) er mwyn lleihau anghyfleustra i ddefnyddwyr ffyrdd gymaint ag sy'n bosibl. Gan gyfeirio at gynnal a chadw ffyrdd
Goruchwylio cydweithwyr bob amser gan fod rhai tasgau'n cael eu hepgor. Efallai y byddai'n syniad da iddyn nhw lanlwytho ffotograffau 'cynt ac wedyn' i'w taflenni gwaith i fonitro eu gwaith.	Nodwyd - Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i rhannu'n dair ardal, ac mae goruchwyliwr sy'n monitro cynhyrchiant ac ati; mae peiriant gwagio gyliau a dau aelod o griw yn gweithio ym mhob ardal. Rhoddir amserlen i'r criwiau i sicrhau y caiff pob gwli ei lanhau unwaith y flwyddyn, er mewn mannau lle mae llifogydd neu falurion yn fwy cyffredin, maent yn cael eu glanhau dwywaith y flwyddyn. Ar dywydd gwael gellir hepgor gwaith glanhau arferol gan y rhoddir blaenoriaeth i achosion o lifogydd neu dasgau brys eraill (fel graeanu yn y gaeaf) er mwyn lleihau anghyfleustra i ddefnyddwyr ffyrdd gymaint ag sy'n bosibl.
Nid yw draeniau byth yn cael eu clirio'n rheolaidd, gall hyn achosi llawer o ddifrod i'r ffyrdd a thai	Nodwyd - Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i rhannu'n dair ardal, ac mae goruchwyliwr sy'n monitro cynhyrchiant ac ati; mae peiriant gwagio gyliau a dau aelod o griw yn gweithio ym mhob ardal. Rhoddir amserlen i'r criwiau i sicrhau y caiff pob gwli ei lanhau unwaith y flwyddyn, er mewn mannau lle mae llifogydd neu falurion yn fwy cyffredin, maent yn cael eu glanhau dwywaith y flwyddyn. Ar dywydd gwael gellir hepgor gwaith glanhau arferol gan y rhoddir blaenoriaeth i achosion o lifogydd neu dasgau brys eraill (fel graeanu yn y gaeaf) er mwyn lleihau anghyfleustra i ddefnyddwyr ffyrdd gymaint ag sy'n bosibl.

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn?

Sylwadau	Ymateb CBSC
MWY O BWERAU I GYFYNGU AR ADEILADAU AR ORLIFDIROEDD. MWY O BWERAU I OSOD CYFYNGIADAU / GORFODI GWELLIANNAU I SYSTEMAU SY'N BODOLI EISOES AR DDATBLYGWYR.	Cytuno - bydd rhoi'r Is-ddeddfau hyn ar waith yn cynorthwyo â'r gwaith o reoli perygl llifogydd ac yn ei wella.
Dylai'r Cyngor hybu technegau peiriannu meddal gwyrdde er mwyn darparu gwelliant amgylcheddol.	Cytuno - Mae'r Cyngor yn hybu'r defnydd o dechnegau peiriannu meddal mewn cynlluniau ac yn ystyried effaith amgylcheddol gwaith draenio.
Byddai'n ddiddorol ac yn ychwanegu gwerth i edrych yn ôl ac ystyried: - Cwynion - Galwadau allan mewn argyfwng - Adborth contractwyr o waith (os oes y fath beth) - Taflenni cymeradwyo gwaith gan beirianwyr (problemau a nodwyd / datrysiadau / casgliadau / problemau a ragwelir yn y dyfodol) - Cofrestr Asedau Cyfredol	Nodwyd
Sut fydd y ddeddf yn cael ei chymhwyso i wahanol adrannau'r Cyngor?	Byddai'r Is-ddeddfau'n cael eu cymhwyso ar draws holl adrannau'r Cyngor. Bydd angen i bob adran sy'n cynnig gweithgaredd sy'n dod o dan Is-ddeddf ymgynghori â'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (Tîm Draenio).
Caiff cyfrifoldeb yr Awdurdod ei barchu ond dylid hefyd parchu cyfrifoldeb a phreifatrwydd y tirfeddiannwr, yn enwedig pan fo'r cwrs dŵr hefyd o dan berchnogaeth y tirfeddiannwr. Mae'n wahanol lle bo'r berchnogaeth ar y tir yn dod i ben ar y ffin â'r cwrs dŵr. Efallai bod angen i eiriad yr is-ddeddfau ystyried y gwahanol opsiynau perthnasol yn hytrach na cheisio creu un ateb i bawb.	Anghytuno - Mae is-ddeddfau'n ymdrin â gweithgareddau y bernir bod iddynt effaith o ran perygl llifogydd ac mae angen eu rheoli at ddibenion perygl llifogydd / amgylcheddol. Ymdrinnir â gweithgarwch sydd ag effeithiau cyfyngedig neu ddim o gwbl o ran perygl llifogydd / yr amgylchedd o dan gyfrifoldebau glannau.